SFJGK104

# Ymrymuso unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol i adfer ac adennill rheolaeth ar eu bywyd

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â gweithio gydag unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol i’w cynorthwyo i adnabod achosion camdriniaeth a’u cynhorthwy i ddelio â chamdriniaeth. Mae’n cynnwys eich gallu i’w helpu i fagu eu hyder, cymryd rheolaeth ar eu bywyd a’u grymuso i fyw bywyd heb gamdriniaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. casglu ac asesu'r cofnodion a'r wybodaeth sydd ar gael sy'n llywio'ch dealltwriaeth o amgylchiadau unigolion,
2. gweithio gydag unigolion i archwilio'u hamgylchiadau, gan gynnwys:
• natur y gamdriniaeth a ddioddefwyd
• effaith y gamdriniaeth ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u lles
3. ymateb i arwyddion trallod ymhlith unigolion mewn ffyrdd sy'n lleihau'r straen arnynt ac sy'n bodloni eu hanghenion
4. cytuno ag unigolion ar yr anghenion y maent yn dymuno mynd i'r afael â nhw, sy'n gwella'u diogelwch, eu hiechyd a'u lles
5. cynorthwyo unigolion i adnabod buddion y cymorth y gallant gael ato, yn unol â threfniadau amlasiantaethol
6. archwilio opsiynau gydag unigolion sy'n cyfrif am eu hanghenion a'u dewisiadau, ac sy'n mabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion
7. gydag unigolion, archwilio perthnasedd ac ymarferoldeb opsiynau sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion, gan gynnwys:
• effaith opsiynau ar eu bywyd bob dydd
• pryderon am rwystrau posibl rhag bwrw ymlaen ag opsiynau, a'u heffaith
• camau i fynd i'r afael â phryderon a rhwystrau rhag bwrw ymlaen ag opsiynau
8. annog unigolion i wneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau sy'n well ganddynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. gweithio gydag unigolion i nodi cymorth a'r camau y gallant eu cymryd sy'n mynd i'r afael â'u camdriniaeth a risgiau cysylltiedig
10. cynorthwyo unigolion i ddatblygu strategaethau ymdopi i helpu mynd i'r afael â'u hanghenion emosiynol
11. cynnal lefelau cysylltiad gydag unigolion sy'n cynnig lefel y cymorth sydd ei angen i fodloni eu hanghenion
12. cynorthwyo unigolion i fyfyrio ar a chydnabod eu cynnydd a'u cyflawniadau tuag at fodloni eu hanghenion
13. cynorthwyo unigolion i fynd i'r afael ag unrhyw ddatblygiadau annisgwyl maen nhw'n dod ar eu traws sy'n effeithio ar eu lles, eu hiechyd a'u diogelwch
14. cyfathrebu ag unigolion sy'n bodloni eu hanghenion a'u galluoedd
15. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

16. cynnal cyfrinachedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau a all ddarparu gwybodaeth a chymorth
4. polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad a'ch cyfrifoldeb am gofrestru achosion a rheoli achosion
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
6. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
7. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
8. yr effaith ar bawb y mae cam-drin domestig neu drais rhywiol wedi effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion a dibynyddion
9. sut gall plant a dibynyddion gael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel rhan o'u camdriniaeth
10. y mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu ceisio, a'u ffynonellau, a sut i gael at y rhain
11. sut mae agweddau'n gysylltiedig â diwylliant, cymdeithas a rhywedd yn effeithio ar gam-drin domestig a thrais rhywiol
12. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
13. sut i gymhwyso ymarfer ystyriol o drawma ym maes eich ymarfer
14. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
15. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
16. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
17. trefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion yn eich ardal
18. rôl y prif asiantaethau cyfreithiol sy'n ymwneud a darparu amddiffyniad i unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol
19. llwybrau atgyfeirio i wahanol asiantaethau a rhwng gwahanol wasanaethau
20. pryd a sut i herio a newid llwybrau atgyfeirio er budd unigolion

21. dulliau asesu sy’n addas ar gyfer asesu anghenion unigolion
22. sut i gydnabod a pharchu ofnau a phryderon unigolion
23. dulliau a thechnegau ar gyfer gweithio gydag unigolion
24. hawliau unigolion i wrthod cyngor a gwybodaeth
25. ffactorau sy’n effeithio ar freguster a’r risg i unigolion o gam-drin domestig a thrais rhywiol
26. y mathau o niwed a breguster, eu lefelau a’u dangosyddion, y gellir eu defnyddio wrth asesu risg
27. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn rheoli cynnydd a chynnwys trafodaethau
28. sut i wneud awgrymiadau a chynnig cyngor mewn ffyrdd sy’n gefnogol ac nad ydynt yn cyfarwyddo
29. pwysigrwydd peidio â barnu ynghylch bywyd a dewisiadau unigolion
30. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o wneud hynny
31. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol, gan gynnwys sut i’w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
32. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
33. pwysigrwydd cyfathrebu dieiriau
34. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o’u goresgyn
35. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o’ch gwerthoedd a’ch credoau eich hun a’r effaith y gall eich gwerthoedd a’ch credoau eich hun ei chael wrth weithio gydag unigolion.
36. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
37. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
38. cyfyngiadau cyfrinachedd sy’n berthnasol i’ch rôl
39. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion
40. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn gwybod pam nad yw eu dymuniadau datganedig yn cael eu diwallu.

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**

Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy’n 16 oed neu’n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu’n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae’r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail ‘anrhydedd’ fel y’i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**

Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy’n gorgyffwrdd ac sy’n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**

Math o eiriolaeth sy’n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a’u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae’n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy’n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy’n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**

Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**

Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod a all gael eu defnyddio sy’n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**

Tebyg ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i ddisgrifio

digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**
Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad

SFJGK104

Ymrymuso unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol i adfer ac adennill rheolaeth ar eu bywyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJGK104 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | rhywiol; domestig; ystyriol o drawma; ymrymuso; hyder; adfer; ymdopi; cymorth; risgiau |